

2018/19

Datganiad Gwerth am Arian





Ein sicrwydd i chi

Croeso i'ch Datganiad Gwerth am Arian ar gyfer 2018/2019. Y datganiad hwn yw ein sicrwydd i chi y bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr (CCM) yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau – yn cyflawni Gwerth am Arian i'n gweithwyr a'n tenantiaid.

Mae Gwerth am Arian yn elfen hanfodol o bopeth a wnawn yn Cartrefi Cymoedd Merthyr. Mae'n llawer mwy na gwario arian yn ddoeth; mae'n golygu gwneud y pethau iawn a'u gwneud yn dda. Mae ein Corff Democrataidd, gan weithio ochr yn ochr â'n Bwrdd, wedi datblygu ein Strategaeth Gwerth am Arian, sy'n nodi'r egwyddorion sy'n llywio ein gwaith yn Cartrefi Cymoedd Merthyr. Rydym mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru fel sefydliad cydfuddiannol tenantiaid a gweithwyr cyntaf Cymru, i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n bwysig i'n tenantiaid, gweithwyr a'r gymuned ehangach – rydym yn wahanol, rydym yn meddwl yn wahanol, rydym yn gweithredu'n wahanol – dyma'r ffordd gydfuddiannol. Rydym yn parhau i weithio'n greadigol i sicrhau bod ein gwerthoedd yn sail ac yn graidd i bopeth a wnawn, gan sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn elwa.

Mae'n gyfnod cyffrous i'n sefydliad cydfuddiannol wrth i ni gynllunio ein strategaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. Gwerth am Arian fydd y grym a fydd yn llywio hyn, gan sicrhau ein bod yn fusnes cymdeithasol effeithiol wrth i ni barhau i fuddsoddi yn ein cartrefi, yn ein staff ac yn ein cymunedau.

Dymuniadau gorau,

Natalie a Nicola
Cadeirydd y Bwrdd Democrataidd a Chadeirydd y Bwrdd

Cyflwyniad

Cytunodd ein Corff Democrataidd, ynghyd â'r Bwrdd a'n Haelodau ar Gerdyn Sgorio Cytbwys newydd a 7 Rheol Aur newydd ar gyfer Gwerth am Arian ym mis Mehefin 2018. Mae ein Rheolau Aur yn ein galluogi i adolygu ein perfformiad yn nhermau darbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chydraddoldeb.

Mae'r Corff Democrataidd yn monitro Gwerth am Arian ar ran ein Haelodau yn flynyddol ac maent wedi cymeradwyo Datganiad Gwerth am Arian 2018/19, gan ddod i'r casgliad bod CCM wedi darparu Gwerth am Arian yn ystod 2018/19. Dangosir y canlyniadau drosodd:



Darbodaeth



Effeithlonrwydd



Effeithiolrwydd



Cydraddoldeb

Ein perfformiad ar gyfer 2018/19

Byddwn bob amser yn pennu rhent fforddiadwy



Mae'r **rhent byw yn 28% o'r enillion cyfartalog** ym Merthyr Tudful



Mae ôl-ddyledion rhent presennol tenantiaid **wedi lleihau £40,000**

Byddwn bob amser yn diogelu ein tenantiaid



Mynychodd 90 tenant gyflwyniad ar ddiogelwch tân yn y cartref



Rydym wedi cynorthwyo 118 o denantiaid i gynnal eu tenantiaethau, gan gynnwys 17 â phroblemau celcio



Cefnogwyd 24 dioddefwr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Byddwn bob amser yn diogelu ein hamgylchedd



Datryswyd 70 digwyddiad o dipio anghyfreithlon



Fe wirfoddolodd mwy na 220 o bobl i lanhau'r fwrdeistref gyda ni

Byddwn bob amser yn trin staff a thenantiaid yn deg



Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau 3.4% o blaid merched



Fe wnaeth 525 tenant elwa ar ein gwasanaeth sicrhau'r incwm mwyaf posibl

Byddwn yn adolygu meysydd gwariant mawr h.y. mwy na £100,000 y flwyddyn



Rydym wedi adolygu pob un o'n contractau cynnal a chadw adeiladau



Lleihau gwariant ar deffoni o £22,000 y flwyddyn

Byddwn bob amser yn buddsoddi yn ein cymuned leol



Am bob £1 sy'n cael ei gwario drwy ein fframwaith contractwyr, mae £1.93 yn cael ei ail-fuddsoddi yn yr economi leol.



Fe wnaethom wario £12.946 miliwn ym Merthyr Tudful.

Byddwn bob amser yn datblygu ein staff mewnol; yn ystyried cynllunio olyniaeth ac yn cynnig lleoliadau gwaith a phrentisiaethau



Rydym wedi cefnogi 10 lleoliad gwaith a gwirfoddolwyr




Sicrhodd 14 o gyflogaion gymhwyster proffesiynol.

Rheol #1

Byddwn bob amser yn pennu rhent fforddiadwy

Fe wnaethom fabwysiadu'r 'Rhent Byw' o 1af Ebrill 2018 ymlaen. Cafodd ein Polisi Rhent Byw ei gynhyrchu ar y cyd â'n Corff Democrataidd a'r Bwrdd. Ar gyfer 2018/19 mae ein rhenti (gan gynnwys ein tâl gwasanaeth cyfartalog lle y bo'n berthnasol) yn seiliedig ar tua 28% o enillion cyfartalog cyhoeddedig preswylwyr ym Merthyr Tudful. Mae hyn wedi golygu bod ein rhenti targed ar gyfer fflatiau un ystafell wedi gostwng 6% flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae ein rhenti targed ar gyfer eiddo 1 a 2 ystafell wely wedi profi cynyddu llai na 4.5% ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn newyddion gwych i denantiaid sengl/rhieni

unigol mewn eiddo llai, gan mai nhw sy'n ei chael yn fwyaf anodd fforddio i redeg cartref.



Yn ystod y flwyddyn buom yn monitro ein rhenti yn erbyn enillion gwirioneddol tenantiaid newydd a darpar denantiaid, er mwyn iddynt fod yn fforddiadwy. Adolygwyd hefyd ddata ar ddeiliadaeth aelwydydd a chynhaliwyd archwiliad o denantiaethau er mwyn diweddarau ein cofnodion ar gyfansoddiad aelwydydd, a fydd yn dylanwadu ar ein polisi rhenti yn y dyfodol.

Er gwaethaf cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn, fe ostyngodd ôl-ddyledion ein tenantiaid presennol tua £40,000 flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan roi'r hyder i'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd i leihau cyllideb 2019/20 ar gyfer dyledion drwg, yn gyfnewid am gynnydd yn nifer y cyflogeion yn y Tîm Incwm a'r Tîm Llesiant Cymunedol er mwyn helpu ein tenantiaid i symud i'r Credyd Cynhwysol.

Fe wnaethom newid i flwyddyn rhent 52 wythnos yn 2018/19. Mae hyn yn haws i'r tenantiaid hynny sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol a'r rhai sy'n symud i'r Credyd Cynhwysol oherwydd bydd unrhyw elfen dai a gynhwysir yn eu taliad yn seiliedig ar flwyddyn 52 wythnos. Roedd hyn yn newid arfer sylweddol i ni oherwydd bod y flwyddyn rhent 48 wythnos wedi bod ar waith cyn y trosglwyddiad.

Fe wnaethom brynu rhywfaint o feddalwedd yn 2018/19 i'n helpu i olrhain cyn-denantiaid sydd â dyledion heb eu talu gyda ni. Rydym wedi adennill £8,000 o ôl-ddyledion cyn-denantiaid o gymharu â chost y meddalwedd, a oedd tua £3,500.



Rheol #2

Byddwn bob amser yn diogelu ein tenantiaid

Rydym wedi bod yn dilyn Ymchwiliad Tŵr Grenfell drwy'r flwyddyn i sicrhau bod ein tenantiaid mor ddiogel â phosibl. Cynhaliwyd asesiad risg ar bob un o'n drysau tân cyfansawdd yn ein blociau o fflatiau a phennwyd lefel y risg. Ar ôl trafod hyn gyda'n Fforwm Diogelwch Tenantiaid, a fu'n cyfrannu at ein strategaeth ar gyfer delio â'r drysau tân, fe ddaethom o hyd i ddrysau tân newydd a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu a buom yn ymweld â'r gweithgynhyrchydd gyda 6 chynrychiolydd o'r Fforwm Diogelwch Tenantiaid a'r Fforwm Diogelwch Tân Preswylwyr.

Ar ôl i ni gyflwyno ein canfyddiadau i'r Bwrdd, fe wnaethom osod 18 o ddrysau newydd lle'r roedd y risg fwyaf a byddwn yn newid y 200 drws tân sy'n weddill yn ystod 2019-20.

Fe arweiniodd achos llys diweddar a oedd yn cynnwys Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn Lloegr, lle achoswyd marwolaeth a oedd yn cynnwys lifft domestig mynediad i'r anabl, at adolygiad o'n system archwilio a gwasanaethu ar gyfer addasiadau yng nghartrefi tenantiaid. Er nad yw'r eitemau hyn yn cael eu cwmpasu'n uniongyrchol gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, oherwydd eu bod yn ddomestig eu natur a'u defnydd, ac o ganlyniad i'r achos hwn, rydym wedi mabwysiadu archwiliad bob 6 mis a rhaglen wasanaethu yn unol ag offer codi sy'n cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd cyffredin.

Mae'r Fforwm Diogelwch Tân Preswylwyr wedi bod yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae

mwy na 90 o denantiaid a phreswylwyr wedi cael cyflwyniadau yn ein Cynlluniau Byw Cymunedol ar ddiogelwch tân yn y cartref ac mae Cartrefi Cymoedd Merthyr a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cynnal atgyfeiriadau ac ymweliadau i roi cyngor ar ddiogelwch tân.

Mae aelodau o'n Fforymau Diogelwch Tenantiaid wedi cyflawni cymwysterau iechyd a diogelwch sy'n cael eu hachredu'n genedlaethol, a gyflenwyd gan ein Rheolwr Iechyd a Diogelwch. Rydym wedi sicrhau arbedion o £3,500 yn ystod y flwyddyn drwy ddarparu hyfforddiant diogelwch pwrpasol ac achrededig i gyflogeion a thenantiaid ar bynciau a oedd yn cynnwys diogelwch ar safleoedd adeiladu, cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth o radon ac asbestos a chodi a chario.

Fe wnaethom arbed £1,840 drwy gynnal hyfforddiant Diogelwch Rheoli Safle ar gyfer 4 cyflogai. Yn yr un modd, fe wnaethom arbed tua £1,700 drwy gyflenwi hyfforddiant mewnol ar reoli gwrthdaro ac ymwybyddiaeth o Radon ac Asbestos, a fyddai wedi'i gyflenwi gan drydydd parti yn y gorffennol.

Fe wnaethom ddarparu cymorth i 24 dioddefwr troseddau ac Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol yn ystod y flwyddyn drwy gynyddu mesurau diogelwch yn y cartref e.e. larymau panig, cloeon ychwanegol yn ogystal â chefnogaeth emosiynol.

Mae teledu cylch cyfyng ychwanegol wedi golygu ein bod wedi atal troseddau ac

ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hefyd wedi golygu ein bod wedi gallu casglu tystiolaeth gliriach o'r troseddau sy'n cael eu cyflawni.

Fe wnaethom gwblhau cynllun peilot prosiect gerddi agored, gan greu 13 o erddi blaen ychwanegol o ardaloedd a oedd yn gynllun agored yn flaenorol, er mwyn creu gofod amddiffynadwy.

Fe wnaethom gefnogi 17 o denantiaid â phroblemau celcio drwy ein prosiect Creu Gofod. Mae celcio yn amlygu tenantiaid i'r risg o dân a gall gostio hyd at £35,000 y flwyddyn i gymdeithas tai os na fydd yr aelwyd yn derbyn cymorth.

Mae ein Gwasanaeth Cefnogi Pobl yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n chwarae rôl hollbwysig yn atal digartrefedd yng Nghymru drwy alluogi pobl i reoli eu bywydau eu hunain a byw'n hyderus mewn cartrefi diogel. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwerth am arian aruthrol drwy ddarparu cymorth o ansawdd uchel i bobl sy'n agored i niwed. Mae'n aml yn helpu i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty ac yn lleihau pwysau ar wasanaethau megis



iechyd, gofal cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynorthwyo 118 o denantiaid i gynnal eu tenantiaeth a 656 o bobl eraill gyda chefnogaeth tai 'untro'.

Fe wnaethom wario £141,000 yn 2018/19 ar addasiadau anabl i 197 o'n cartrefi, gan sicrhau bod tenantiaid yn gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi gyhyd ag y bo'n bosibl.

Fe wnaethom ddarparu 20 o sliperi gwrthlithro yn ein cynlluniau byw cymunedol er mwyn osgoi cwympiadau yn y cartref.



Rheol #3

Byddwn bob amser yn diogelu ein hamgylchedd

Mae tipio anghyfreithlon wedi cynyddu'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda 440 o ddigwyddiadau unigol yn 2018/19. Eleni mae gennym fwy o ddulliau adrodd ac rydym wedi gweithredu'n fwy rhagweithiol er mwyn nodi cyflawnwyr a, phan fydd angen, cyflwyno tystiolaeth i'r Awdurdod Lleol er mwyn erlyn. Rydym wedi datrys 70 digwyddiad o dipio anghyfreithlon gan ddefnyddio camerâu cudd a dulliau ymchwilio eraill a chyflwynwyd anfonebau gyda chyfanswm o £4,262 er mwyn adennill y gost o lanhau. Yn nhermau'r sbwriel a gasglwyd yn ystod y flwyddyn, mae nifer y tunelli wedi lleihau, gan arbed tua £1,500. Ein dewis yw defnyddio addysg ac ailgylchu er mwyn mynd i'r afael â'r problem hon. Yn ogystal â hyn, fe gwblhaodd Tîm yr

Amgylchedd 46 o brosiectau gaeaf, yn torri llystyfiant yn ôl ac yn tacluso ardaloedd a oedd wedi tyfu'n wyllt.

Rydym wedi gweithio gydag ysgolion, gwirfoddolwyr, Cadwch Gymru'n Daclus, Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Cynlluniau Byw Cymunedol, a oedd yn cynnwys mwy na 140 o bobl yn codi sbwriel ac yn cyflawni prosiectau ailgylchu cymunedol. Yn nigwyddiadau Glanhau'r Gwanwyn y llynedd ar draws y fwrdeistref gyfan, bu mwy na 80 o bobl, gan gynnwys plant ysgol, yn cymryd rhan a chasglwyd 310 o fagiau o sbwriel, yr oedd 136 ohonynt yn cynnwys eitemau y gellir eu hailgylchu.

Yn hytrach na rhoi diwrnod i ffwrdd i gyflogeion ein swyddfa pan wnaethom symud i Dŷ Brychan, fe wnaethom drefnu diwrnod yn y gymuned. Bu mwy na o 20 o gyflogeion yn helpu i gael gwared â hen ddodrefn ac offer o hen swyddfa 3G yn Chestnut Way, Gurnos ac yn gwagio a phlannu 2 blannwr ar ochr y ffordd yng Nghaedraw. Aelodau o'n Tîm Amgylcheddol wnaeth y gwaith plannu, gan wella ymddangosiad y ffordd.

Fe wnaethom gefnogi digwyddiad Byw'n Wyllt Grŵp Dynion y Gurnos ym mis Medi. Treuliwyd y diwrnod yn plannu mewn ardal o'r Gurnos, gyda'r holl blanhigion yn cael eu darparu gan yr Awdurdod Lleol, a bu mwy na 50 aelod o'r gymuned yn cymryd rhan.

Fe wnaethom osod cladin wal mewn 60 eiddo; 170 o foeleri newydd a chwblhawyd 68 o ychwanegiadau inswleiddio atig. Dylai'r mesurau hyn leihau'r swm o nwy/trydan a ddefnyddir i wresogi'r cartrefi hyn a lleihau biliau ynni ein tenantiaid.

Cynhaliwyd nifer o ddyddiau sgip ar draws y fwrdeistref yn 2018/19. Roedd hyn yn galluogi tenantiaid i gael gwared ar eitemau diangen am ddim ac o ganlyniad llwyddwyd i ddatrys 18 achos o dorri tenantiaeth.

Mae gan ein pencadlys newydd baneli ffotofoltäig i gynhyrchu trydan a man gwefru ceir trydan, y gall y staff ac ymwelwyr ei ddefnyddio am ddim yn ystod y dydd. Mae ein defnydd o drydan wedi lleihau 25% flwyddyn ar ôl blwyddyn, sy'n arbediad o tua £6,800 y flwyddyn.

Lle bynnag y bo'n bosibl rydym yn ailgylchu dodrefn sy'n cael eu gadael yn ein heiddo. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chronfa Pobl Cartrefi Cymoedd Merthyr i gynorthwyo tenantiaid sydd wedi dioddef colledion heb yswiriant e.e. yn dilyn tân, llifogydd, cam-drin domestig ac yn y blaen. Rydym hefyd wedi rhoi dodrefn i denantiaid newydd sydd wedi dod atom drwy'r llwybr digartrefedd. Mae'r elusen hon yn cael ei hariannu'n llawn gan CCM ac rydym wedi cefnogi cyfanswm o 11 tenant drwy'r elusen hon.

Yn ystod 2018/19 fe wnaethom glirio tir gwastraff er mwyn creu rhandir cymunedol yn Ynysfach. Rydym yn bwriadu agor hwn i bobl ar draws y fwrdeistref, gyda'r bwriad o hybu bwyta'n iach a mynd allan i'r awyr agored, yn ogystal â helpu gydag iechyd meddwl, a hefyd annog y genhedlaeth iau i gymryd rhan e.e. drwy dargedu ysgolion. Y tîm Llesiant Cymunedol sy'n datblygu'r prosiect hwn.

Bu'r Tîm Amgylcheddol yn cymryd rhan hefyd mewn prosiect yn 9th Avenue, Galon Uchaf gyda Bwrdd Preswylwyr Galon Uchaf a dau wirfoddolwr. Cafodd swm mawr o wastraff gwyrdd ei asglodi a'i ailddefnyddio ar y safle, gan wella'r ardal i holl ddefnyddwyr y cyfleuster. Buom yn gweithio hefyd ym mhob Cynllun Byw Cymunedol drwy'r gaeaf yn clirio chwyn yn yr ardaloedd cymunedol ac yn clirio llwybrau o amgylch y cyfadeiladau.



**Casglwyd
310 bag
o sbwriel**

yn ystod ein
digwyddiadau
Glanhau'r Gwanwyn
ar draws y
Fwrdeistref.



Rheol #4

Byddwn bob amser yn trin staff a thenantiaid yn deg a chyfartal

Roedd ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau 3.4% o blaid merched, sy'n gyflawniad aruthrol o gymharu â sectorau eraill, yn arbennig oherwydd bodmwyafrif ein cyflogeion yn wrywaidd (61.6%). Ein nod yn y pen draw ar gyfer hyn yw cydraddoldeb.

Lansiwyd ein cynllun llesiant 'Happy Me' ar gyfer pob un o'n cyflogeion, sy'n cynnig amrediad o weithgareddau a mentrau all fod o fudd i gyflogeion a gwella eu llesiant. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys grŵp cerdded; pilates a chynghor ar fwyta'n iach, a ddarperir gan Grŵp Sefydliad Gellideg.

Yn ystod 2018/19 roeddem yn gweithio tuag at wobwr Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n sicrhau ein bod yn defnyddio arferion gorau ar draws systemau llywodraethiant, gwasanaeth, mynediad, cyfranogiad a diwylliant. Rydym yn falch iawn ein bod wedi cyflawni hyn ym mis Ebrill 2019.

Bu ein Panel Cwynion, sy'n cynnwys 4 Aelod o'r Corff Democrataidd (3 tenant ac 1 cyflogai) yn ymdrin â 74 o gwynion yn 2018/19, a chafodd 39 o'r rhain eu cadarnhau/cadarnhau'n rhannol a gwrthodwyd 35. O'r 7 cwyn a aeth i apêl, cadarnhawyd 2 ohonynt. Ni chafodd unrhyw gwynion eu huwchgyfeirio i'r Ombudsmon yn ystod y flwyddyn.

Bu ein Swyddogion Tai ardal yn ymweld â 1,333 o denantiaid yn 2018/19 ac fe nodwyd 427 achos o dorri tenantiaethau. Llwyddodd ymyriadau cynnar i ddatrys 302 o'r achosion hyn heb unrhyw gamau pellach.

Mae 525 o aelwydydd wedi elwa ar ein gwasanaeth sicrhau'r incwm mwyaf posibl sy'n gyfwerth â 735 oedolyn a 177 plentyn. Ar gyfartaledd roedd pob un o'r aelwydydd hyn £24.75 yn gyfoethocach bob wythnos. Mae hyn gyfwerth ag incwm ychwanegol o tua £675,700 y flwyddyn. Darparwyd

gwerth mwy na £2,000 o nwyddau gwyn drwy Ymddiriedolaeth Buckland a'r Gronfa Cymorth Dewisol i 11 tenant. Darparwyd gwerth mwy na £4,100 o nwyddau i 11 o'n tenantiaid gan Gronfa Cartrefi Cymoedd Merthyr sy'n cael ei hariannu llawn gan CCM.

Yn 2018/19 fe wnaethom gydnabod bod rhai teuluoedd yn profi anawsterau yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Fe wnaeth 58 teulu elwa o'n cynllun hamper gwyliau yn ystod gwyliau'r haf a 73 teulu arall drwy ein cynllun hamper Nadolig.

Bu i 75 o blant gymryd rhan yng Nghlwb Hwyl Haf y Plant, lle cynhaliwyd gweithgareddau yn ystod 6 wythnos gwyliau'r haf.

Fe wnaethom gyrchu £98,696 o'r cynllun Taliad Tai Dewisol a £2,304 o'r Vicars Relief Fund. Llwyddwyd i atal o leiaf 2 achos o droi allan gan ddefnyddio'r cronfeydd hyn yn ystod y flwyddyn.

Fe wnaethom helpu 18 tenant i gael mynediad at dariffau ynni is; drwy dynnu mwy o arian oddi ar eu bil cyfleustodau ac un ad-daliad.

Mae ein Tîm Cymorth Fel y Bo'r Angen a'r Tîm Incwm wedi cyflwyno mwy na 260 o dalebau banciau bwyd.



Rheol #5

Adolygu pob maes gwariant mawr dros £100,000 y flwyddyn

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Gaffael ar gyfer y Tîm Gwelliannau Tai ar gynllun i adnewyddu ein fframwaith caffael presennol ar gyfer gwaith gwella sy'n cael ei is-gontractio. Nod hyn yw creu capasiti drwy gynyddu nifer y busnesau a all wneud cais am waith. Cyflwynir hyn ym mis Mehefin 2019.

Er bod cost ein harolygon STAR yn llawer is na £100,000 rydym wedi penderfynu cynnal ein harolwg tenantiaid yn flynyddol ac felly fe wnaethom dendro'r contract hwn yn 2018. Bydd hyn yn sicrhau bod safbwyntiau'r tenantiaid yn gyfredol.

Rydym wedi gwario £22,000 y flwyddyn yn llai ar deleffoni, ar ôl symud swyddfa sy'n golygu bod pob cyflogai yn gweithio o un pencadlys.

Rheol #6

Byddwn bob amser yn buddsoddi yn ein heconomi leol

Fel sefydliad cydfuddiannol rydym yn ystyried ein Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol o ddifri.

Rydym yn cynnwys buddion cymunedol yn ein contractau pryd bynnag y bo'n bosibl ac rydym yn disgwyl i gontractwyr weithio gyda ni i wella ein cymunedau. Mae gennym fframwaith contractwyr sy'n ategu ein tîm Gwasanaethau Cartrefi ac Eiddo ac yn cynnal amrediad o atgyweiriadau gwaith, cynnal a chadw a gwelliannau cyfalaf.

Yn gyffredinol, am bob £1 sy'n cael ei gwario drwy'r fframwaith, mae swm cyfartalog o £1.93 yn cael ei ail-fuddsoddi yn yr economi leol.



Mae'r rhan fwyaf o'n contractwyr yn fusnesau lleol a thrwy ein contractau maent wedi ein galluogi i gyflawni'r canlynol yn 2018/19:

- Cyflogi ail-hyfforddi 50 cyflogai.
- Cefnogi 5 lleoliad gwaith ac 8 prentis.
- Gwariodd ein contractwyr fwy na £2,265,711 gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru a gwariwyd £13,567 gyda sefydliadau cymunedol/gwirfoddol a mentrau cymdeithasol.
- Darparwyd hyfforddiant ar ddiogelwch ac asbestos i 48 unigolyn.
- Rhoddwyd £40,835 i sefydliadau ym Merthyr Tudful.
- O ran cyfraniadau eraill mewn nwyddau, fe gyfrannodd ein contractwyr £11,499 a'r hyn a fyddai'n gywerth â £9,882 o lafur.

Mae gan Grŵp Sefydliad Gellideg contract i gynnal gwaith cynnal a chadw ar ystâd Gellideg a hwy sydd hefyd yn rhedeg ein caffï mewnol newydd. Mae'r contractau hyn wedi golygu gwaith parhaol i 5 o bobl a hyfforddiant i 6.

Rydym yn parhau i gynnig buddion i Aelodau drwy ein Sefydliad Cydfuddiannoll, fel a ganlyn:-

- Disgownt i staff a thenantiaid mewn nifer o fusnesau lleol, gan gynnwys bwyd, beiciau, atgyweirio/gwasanaethu/MOT i geir, teiars, aelodaeth campfa, siopau trin gwallt, dodrefn, offer domestig, deunyddiau adeiladu, gwisgoedd, blodau, ffotograffau a phaent.
- Gall aelodau fynychu digwyddiadau a gweithgareddau chwaraeon amrywiol ar gyfraddau is e.e. gweryslyoedd hwyl a gemau gartref Clwb Pêl-droed Tref Merthyr, Parkwood Outdoors Dolygaer, rownd o golff Gyflwyniadol yng Nghlwb Golff Merthyr Tudful a Rock UK (Treharris).

Gwariodd CCM gyfanswm o £12.946 miliwn ym Merthyr Tudful a gwariwyd £2.101 miliwn pellach yng Nghymru – sydd o fudd i'n heconomi leol.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Fe wnaethom gyfrannu £4,764 at ein helusen Aelodau, Cymdeithas Alzheimer's Cymru yn 2018/19.

Fe wnaethom fuddsoddi £61,000 yn yr adeilad Ardal Gymunedol yn Chestnut Way, Gurnos er mwyn sicrhau bod gan Glwb leuenctid Forsythia a'r asiantaethau eraill sy'n gweithredu o'r adeilad hwnnw ystafelloedd addas. Bu aelodau'r Clwb leuenctid yn helpu i addurno'r ystafelloedd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod yr adeilad yn addas i'r asiantaethau eraill allu gweithredu ohono, a thrwy gyllid grant yr awdurdod lleol, fe wnaethom secondio aelod o staff i redeg yr adeilad drwy 2018/19 a phrynu dodrefn ac offer ar gyfer yr adeilad.

Fe wnaethom wario £19,000 i uwchraddio'r goleuadau a'r lloriau yn y neuadd chwaraeon yng Nghanolfan Gymunedol Trelewis er mwyn iddi fod yn addas ar gyfer y gweithgareddau a gynhelir yno. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd 26 o weithgareddau gwahanol, gan gynnwys clybiau gwaith, cyrlio dan do, partion tymhorol, codi sbwriel cymunedol a diwrnod chwaraeon.

Fe wnaethom gyfrannu £12,080 at Grŵp Sefydliad Gellideg i'w helpu i ddodrefnu'r Ganolfan Llesiant.



£12,080

Rhoddwyd £12,080 i Grŵp Sefydliad Gellideg i'w helpu i ddodrefnu eu Canolfan Llesiant.

Yn ogystal â'r rhoddion i Grŵp Sefydliad Gellideg, dyfarnodd y Panel Grantiau a Nawdd £32,361 i grwpiau lleol. Mae'r grwpiau hyn yn darparu rhwydweithiau a swyddogaethau cymunedol pwysig na fyddant, o bosibl, yn cael eu hariannu fel arall.

Rydym wedi cynnal amrediad o weithgareddau yn ein Cynlluniau Byw Cymunedol er mwyn mynd i'r afael â materion megis unigrwydd, dementia, byw'n iach a llesiant corfforol a meddyliol. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys bingo, boreau coffi, gwau, cwisiau, celf a chrefft, dawnsio, cyrlio, coginio, ymarfer corff a threfnu profion llygaid am ddim yn y cartref. Bu rhwng 15 ac 80 o denantiaid yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn fisol.



Rheol #7

Byddwn bob amser yn datblygu staff mewnol; yn ystyried cynllunio olyniaeth ac yn cynnig lleoliadau gwaith a phrentisiaethau

Buom yn gweithio gyda Mentrau Effaith Gymunedol i ddarparu'r Prosiect Etifeddiaeth Gymunedol, a oedd yn cynnwys adnewyddu eiddo'n llwyr a chwblhau'r Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu (CSCS). Darparwyd cyfle i 18 o denantiaid a phobl a gyfeiriwyd gan Adref, gan ennill sgiliau a phrofiad adeiladu a chyfle i ennill cerdyn CSCS.

Fe wnaethom helpu un o'n tenantiaid i ennill cymhwyster adweithgeg; roedd ei chynnig swydd yn ddibynnol ar hyn ac mae mewn swydd barhaol yn awr.

Cynigiwyd 10 o leoliadau gwaith a swyddi i wirfoddolwyr yn 2018/19. Yn ogystal â hyn rydym wedi gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i helpu disgyblion sydd wedi ymddieithrio a oedd yn agosáu at oedran gadael yr ysgol. Nid oedd un myfyriwr yn mynychu'r ysgol o gwbl ond fe wnaethom gynnig rhywfaint o brofiad gwaith am 2 ddiwrnod yr wythnos ar yr amod bod y myfyriwr yn mynychu'r ysgol ar y dyddiau eraill. Bu hyn yn llwyddiant ac mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer Lefel 1 mewn adeiladu yng Ngholeg Merthyr.



Yn 2018, gofynnodd y Corff Democrataidd i ni ystyried dechrau academi hyfforddi tenantiaid, a fyddai'n defnyddio ein sgiliau mewnol neu'n cysylltiadau â chyflenwyr i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a sgiliau i denantiaid ac aelodau.

Rydym wedi gweithio gyda chynllun Santander i raddedigion drwy gynnig lleoliad gwaith yn ein Tîm Cyfathrebu. Rydym wedi cefnogi 3 lleoliad gwaith â thâl drwy Elite a Remploy, ac mae 1 mewn swydd barhaol yn awr.

Fe wnaethom benodi ein hail brentis benywaidd yn 2018/19. Mae'n hyfforddi i fod yn saer coed.

Fe wnaethom benodi 5 o'n crefftwyr presennol fel gweithredwyr aml-fedr ac mae pob un o'r 15 yn y broses o gwblhau eu cymhwyster yn awr. Mae hyn yn golygu, tra byddant yn gymwys yn eu crefft bresennol, bydd ganddynt gymhwyster lefel 2 hefyd mewn 2 grefft arall hefyd, a fydd yn ein galluogi i wneud defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o'u sgiliau.

Penodwyd 2 brentis yn ystod y flwyddyn a chefnogwyd 5 arall gan CCM. Fe gymhwysodd 3 prentis yn 2018/19, a chynigwyd contractau parhaol i ddau ohonynt a chofrestrodd un ohonynt ar brentisiaeth lefel gradd.

Yn ogystal â'r 15 crefftwr a ddyrchafwyd i weithredwyr aml-grefft, cafodd 5 cyflogai arall ddyrchafiad yn ystod y flwyddyn ac enillodd 14 cyflogai gymhwyster proffesiynol yn eu meysydd perthnasol.



Canlyniad hyfforddiant Gwerth am Arian

Roedd yr hyfforddiant i gyflogeion yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Gwerth am Arian.

Cynigiwyd cwrs ar-lein i bob cyflogai ac roeddem yn falch iawn bod 83 cyflogai wedi cyflwyno awgrymiadau (cyfanswm o 165) er mwyn gwella gwerth am arian, gyda nifer yn cyflwyno mwy nac un syniad.

Mae hyn yn enghraifft wych o aelodau'n cael cyfle i ddweud eu dweud!



Rydym yn gweithredu ar nifer o'u hawgrymiadau eisoes:-

- Gwella'r broses eiddo gwag drwy ddefnyddio technoleg i gynllunio gwaith.
- Y prosiect gweithio symudol er mwyn lleihau gwaith papur a gwneud y defnydd gorau o'r offer electronig yr ydym yn ei ddarparu i'n cyflogeion.
- Ystyried y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu gyda thenantiaid sy'n cyd-fynd â'n prosiect ymchwil ar sut y mae tenantiaid yn dymuno rhyngweithio gyda ni.
- Ystyried ffyrdd gwell o gaffael nwyddau a gwasanaethau a chael ansawdd da o'n dulliau caffael sy'n cyd-fynd â'n System Pwrcasu Dynamig a'n hadolygiad ar gaffael.
- Sut i gynnwys tenantiaid mewn gwerth am arian a gwerth cymdeithasol.

Cerdyn Sgorio Cytbwys Gwerth am Arian

Mae'r Corff Democrataidd wedi adolygu'r ystadegau yn y Cerdyn Sgorio Cytbwys ac maent wedi datgan bod ein perfformiad yn gwella mewn meysydd allweddol o'n busnes flwyddyn ar ôl blwyddyn. E.e.mae'r rhenti rydym wedi'u casglu wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn; mae ein hamseroedd ail-brydlesu wedi gwella ac mae boddhad cyffredinol ein tenantiaid wedi cynyddu 3%.

Mae canlyniadau ein harolwg STAR yn dangos bod boddhad tenantiaid wedi gwella ar draws amrediad eang o wasanaethau a byddwn yn ceisio parhau i wella ar hyn.



			2016/17			2017/18			2018/19			Nodiadau ar Berfformiad 2018/19
			DP	O fl. i fl.	Housemark (Grŵp Cymheiriad)	DP	O fl. i fl.	Housemark (Grŵp Cymheiriad)	Targed	DP	O fl. i fl.	
Effeithlonrwydd	DPA Mewnol	Canran y rhent/ taliadau gwasanaeth a gasglwyd	96.37%	↓	Ddim yn berthnasol	96.06%	↑	Ddim yn berthnasol	96.50%	96.33%	↑	Roedd disgwyl i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn gael effaith niweidiol ar y rhent a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ond, er gwaethaf hyn, rydym wedi perfformio'n well flwyddyn ar ôl blwyddyn
	DPA Mewnol	Amser cyfartalog ail-brydlesu	42.52	↑	4ydd chwartel	41.59	↑	Canolrif	35	39.21	↑	Perfformiad ychydig yn well flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda llai o eiddo yn dod yn wag yn ystod y flwyddyn.
	DPA Mewnol	Canran yr atgyweiriadau a gwblhawyd yn ystod yr ymweliad cyntaf	96.61%	↑	2il chwartel	98.29%	↑	Chwartel 1af	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ni allwn gasglu'r ystadegyn hwn bellach oherwydd newid system. Ar ôl i bob crefft gael eu hychwanegu i'n system penodiadau, bydd yn bosibl ei gasglu unwaith eto.
	DPA Mewnol	Nifer y dyddiau cyfartalog a gymerwyd i gwblhau atgyweiriadau	32.80	→	4ydd chwartel	22.71	↑	4ydd chwartel	28	20.76	↑	Mae hyn yn cynrychioli nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i gwblhau atgyweiriadau o ddydd i ddydd ac mae wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn.
Darbodaeth	Housemark	Cost fesul eiddo ar gyfer gwaith Mawr	£ 1,832.86	↑	4ydd chwartel	£1,801.85	↑	3ydd chwartel	Ddim yn berthnasol	Ddim ar gael eto	Ddim yn berthnasol	Oherwydd oedran ein stoc tai nifer y cartrefi nad ydynt wedi'u hadeiladu'n draddodiadol, roeddem yn disgwyl i'r gost fod yn uchel. Dyma oedd y rheswm dros y trosglwyddiad stoc. Rydym yn disgwyl i'r gwariant fesul eiddo leihau yn 2018/19 yn unol â'r gwariant ar ein rhaglen gyfalaf. Cynhyrchwyd yr ystadegyn hwn gan Housemark, ac mae eu hystadegau diweddaraf yn berthnasol ar gyfer 2017/18.
	Housemark	Cost fesul eiddo o Ôl-ddyledion Rhent a Chasglu Rhent	£184.96	↓	4ydd chwartel	£201.10	↓	3ydd chwartel	Ddim yn berthnasol	Ddim ar gael eto	Ddim yn berthnasol	Cynhyrchwyd yr ystadegyn hwn gan Housemark, ac mae eu hystadegau diweddaraf yn berthnasol ar gyfer 2017/18.
	DPA Mewnol	Rhent fesul uned tai cymdeithasol	£75.10	↑	Ddim yn berthnasol	£79.14	↑	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	£83.25	↑	Fe wnaethom newid ein polisi rhent er mwyn mabwysiadu'r Rhent Byw o 1/4/18 ymlaen, fodd bynnag mae ein rhenti yn parhau i gydgyfeirio gyda'n rhent byw ac felly rydym yn disgwyl i hyn gynyddu yn uwch na'r cynnydd rhent a argymhellwyd.
	DPA Mewnol	Canran y colledion o eiddo gwag	0.89%	↑	3ydd chwartel	0.98%	↓	Canolrif	1.50%	1.07%	↓	Fe waethygodd yr amseroedd ail-ddefnyddio eiddo gwag o fis Gorffennaf i fis Tachwedd, yn rhannol oherwydd capasiti contractwyr, gan arwain at ailddyrranu timau mewnol er mwyn lleihau nifer y cartrefi gwag yn chwarter 4 2018/19, gan leihau'r cyfanswm i 29 ar ddiwedd y flwyddyn a chadw ein colledion rhent cyffredinol o dan y targed.
Effeithlonrwydd a Chydraddoldeb	STAR	Bodddhad cyffredinol tenantiaid	84.99%	↑	4ydd chwartel	85%	↓	Canolrif	Ddim yn berthnasol	88%	↑	O 2018 ymlaen rydym yn bwriadu cynnal arolygon STAR yn flynyddol. Mae canlyniadau eleni yn dangos gwelliant sylweddol o ran bodddhad cyffredinol tenantiaid.
	STAR	Bodddhad gydag ansawdd y cartref	83.86%	↑	4ydd chwartel	81%	↑	4ydd chwartel	Ddim yn berthnasol	83%	↑	Mae hyn wedi gwella rhywfaint flwyddyn ar ôl blwyddyn ond mae'n parhau i fod yn y 4ydd chwartel.
	STAR	Canran y bodddhad gydag atgyweiriadau	77.02%	↑	4ydd chwartel	75.00%	↓	Canolrif	Ddim yn berthnasol	81%	↑	Mae hyn wedi gwella'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae'n berfformiad canolrif.
	STAR	Y % a oedd yn fodlon bod y rhent yn cynrychioli gwerth am arian	81.22%	↑	4ydd chwartel	77.00%	↓	4ydd chwartel	Ddim yn berthnasol	79%	↑	Roedd y gwelliant bychan hwn yn siomedig o ystyried ein bod wedi newid i'r rhent byw ers 1/4/18. Rydym yn bwriadu adolygu ein taliadau gwasanaeth yn 2019/20 o ran dyrannu costau a'r gwasanaethau a ddarperir.
	STAR	Canran oedd yn fodlon â'r gymdogaeth	87.14%	↑	2il chwartel	86.00%	↓	2il chwartel	Ddim yn berthnasol	87%	↑	Gwelwyd cynnydd bychan o 1% mewn bodddhad ers yr arolwg STAR diwethaf.
	DPA Mewnol	% y bobl agored i niwed sy'n llwyddo i fyw'n annibynnol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn	Ddim yn berthnasol	48.90%	Ddim yn	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	39%	↓	Mae hwn yn faes anodd iawn o'n gwaith gyda'r mwyafrif o denantiaethau yn methu oherwydd caethiwed, iechyd meddwl ac anawsterau dysgu. Llwyddodd 46 o'r 118 o ddefnyddwyr gwasanaeth i gynnal eu tenantiaethau ac nid oes angen cefnogaeth arnynt mwyach ac mae 57 o bobl eraill yn parhau i dderbyn cymorth h.y. 48.3%. Fe wnaethom ddarparu ymyrraeth gynnar "untro" yn gysylltiedig â thai i 656 o denantiaid eraill.
	DPA Mewnol	Nifer y buddiolwyr uniongyrchol gweithgarwch buddsoddiad cymunedol	35	Ddim yn	Ddim yn berthnasol	117	↑	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	111	↓	Mae nifer y buddiolwyr uniongyrchol wedi lleihau rhywfaint flwyddyn ar ôl blwyddyn.
Nifer yr anheddau ar ddiwedd y flwyddyn			4,160			4,131			4,100			

